MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer

## Wrth gyflawni Rhan IV o Ddeddf yr Amgylcheddol 1995 Rheoli Ansawdd Aer Lleol

2018

| | |
|---|---|
| Swyddog yr Awdurdod Lleol | Llewellyn Patrick |
| Adran | Iechyd yr Amgylchedd |
| Cyfeiriad | Canolfan Ddinesig,<br>Stryd y Castell,<br>Merthyr Tudful<br><br>CF47 8AN |
| Rhif Ffôn | 01685 725000 |
| E-bost | Llewellyn-Morgan.Patrick@merthyr.gov.uk |
| Rhif cyfeirnod yr adroddiad | AQAP/D1 |
| Dyddiad | 18 Mehefin 2018 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer (AQMA) hwn wedi cael ei gynhyrchu fel rhan o'n cyfrifoldebau statudol fel sy'n ofynnol yn ôl y fframwaith Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Mae'n amlinellu'r gweithrediadau y byddwn yn eu dilyn er mwyn gwella ansawdd aer ym Merthyr Tudful rhwng 2018 a **2020**.

Cysylltir llygredd aer â nifer o effeithiau iechyd niweidiol. Mae'n cael ei gydnabod i fod yn ffactor sy'n cyfrannu at glefyd y galon a chanser. Mae llygredd aer hefyd yn effeithio ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas: plant a phobl hŷn a'r rheini sydd â phroblemau'r galon a'r ysgyfaint. Yn aml, bydd cysylltiad cryf â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb gan mai ardaloedd sydd ag ansawdd aer isel yn aml yw'r ardaloedd lleiaf llewyrchus.[1,2].

Yn y DU, amcangyfrifir fod cost flynyddol effeithiau gronynnol ar iechyd y gymdeithas oddeutu £16 biliwn. [3]. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymrwymedig i leihau cysylltiad preswylwyr Merthyr Tudful ag ansawdd aer gwael er mwyn gwella iechyd..

Gellir grwpio'r gweithrediadau posibl a ystyrir o dan yr wyth testun eang, canlynol. Mae'r rheini sydd wedi arwain at ddatblygiad gweithredol arfaethedig, yn ychwanegol at weithgaredd gweithredol arferol y Cyngor wedi eu nodi mewn print bras:

- Dulliau amgen i ddefnyddio cerbydau preifat
- Rheoli cerbydau cludo nwyddau a chyflenwadau
- Canllawiau polisi a rheoli datblygiad
- Hybu trafnidiaeth allyriadau isel
- **Hybu dulliau amgen o deithio**
- **Cynllunio trafnidiaeth a seilwaith**
- **Rheoli Traffig**
- Effeithlonrwydd cerbydau fflyd

Er mai'n prif nod oedd lleihau'r llif traffig ar AQMA Heol Twynyrodyn, rydym wedi ceisio gwneud hyn yn bennaf trwy addasu seilwaith trafnidiaeth ganol y dref er mwyn darparu llwybrau traffig mwy uniongyrchol a lleihau tagfeydd. Mae gwneud hynny yn

[1] Ecwiti amgylcheddol, ansawdd aer, statws sosioeconomaidd ac iechyd resbiradol, 2010
[2] Ansawdd aer ac amddifadedd cymdeithasol yn y DU: dadansoddiad amgylcheddol o anghydraddoldebau, 2006

[3] Defra. Canllaw cost lleihad ar gyfer rhoi gwerth ar newidiadau mewn ansawdd aer, Mai 2013

lleihau amseroedd teithio a phellteroedd ac yn lleihau allyriadau cerbydau a chysylltiad y cyhoedd â hwy mewn ardal ehangach, yn hytrach nag yn yr AQMA yn unig. Mae dulliau eraill o leihau cysylltiad â llygredd traffig yn yr AQMA hefyd wedi cael eu hystyried a lle yr oeddent yn ddichonadwy, cyflwynwyd hwy ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ein blaenoriaethau allweddol a fanylir yn Adran 3.5 isod, oedd yn gyntaf;  allyriadau traffig ffordd leol ac yn ail, allyriadau traffig cyffredinol canol y dref.

Yn yr AQAP hwn, rydym yn amlinellu sut yr ydym yn cynllunio ar gyfer ymdrin â materion llygredd aer mewn modd effeithiol sydd oddi fewn ein rheolaeth.  Fodd bynnag, rydym yn cydnabod fod nifer fawr o feysydd polisi ansawdd aer sydd y tu hwnt i'n dylanwad (fel safonau allyriadau ceir a gytunwyd yn Ewrop) ond gan fod gennym dystiolaeth ddefnyddiol, byddwn yn parhau i gydweithio â'r llywodraeth ranbarthol a chanolog ar bolisïau a materion sydd y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol Merthyr Tudful.

## Cyfrifoldebau ac Ymrwymiad

Paratowyd yr AQAP hwn gan Adan Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Merthyr Tudful gyda chymorth a chytundeb swyddogion yn yr adrannau canlynol:

- Peirianneg Priffyrdd
- Cynllunio a Datblygu
- Cynllunio Cefn Gwlad
- Rheoli Fflyd
- Adfywiad Canol y Dref

Cymeradwywyd ar gyflwyniad yr AQAP drafft gan:

Y Cabinet ar 7 Chwefror 2018 a'r Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2018.

Caiff yr AQAP terfynol hwn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 27 Mehefin 2018 i'w gymeradwyo ar gyfer ei gyflwyno i LlC a DEFRA.

Mae'r AQAP hwn yn gydran o Amcan Lles Amgylcheddol y Cyngor a bydd yn destun adolygiad cyson gan broses graffu'r Cyngor. Bydd datblygiad blynyddol hefyd yn

cael ei nodi yn yr Adroddiadau Statws blynyddol (ASB) a gynhyrchir gan Ferthyr Tudful fel rhan o'n cyfrifoldebau Ansawdd Aer Lleol statudol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar yr AQAP hwn, anfonwch hwy i: Llewellyn Patrick yn:

Iechyd yr Amgylchedd, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

01685 727415

Llewellyn-Morgan.Patrick@merthyr.gov.uk